CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

553/51

**ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 3a**

**Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg**

P.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **Gwestiwn 1** ac **un** cwestiwn arall.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 20 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall.*

**1.**

> Yn ôl Moeseg Sefyllfa, nid oes set o reolau moesol sy'n gymwys i bopeth. Mae'r hyn sy'n gywir ac anghywir yn dibynnu ar sefyllfa, diwylliant a chredoau y bobl dan sylw.

*(a)* Amlinellwch egwyddorion y ddamcaniaeth foesegol a geir uchod. [10]

*(b)* Eglurwch gryfderau a gwendidau'r ddamcaniaeth hon o safbwynt crediniwr crefyddol. [10]

**2.** *(a)* Amlinellwch ddadleuon iwtilitaraidd posibl (i) o blaid ysgariad **a** (ii) yn erbyn ysgariad. [10]

*(b)* 'Mae hapusrwydd yn sail ddigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau moesol.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Amlinellwch ddysgeidiaeth foesegol **un** o brif grefyddau'r byd ar unrhyw **ddau** fater rhywiol yr ydych wedi eu hastudio. [10]

*(b)* 'Mae gweithredoedd rhywiol y tu allan i briodas yn anghywir.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]